**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG**
**GYNHALIWYD YN Y NEUADD 4 EBRILL 2024 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Janet Knott, Philip Davies, Jenny Jones, Meinir James, Nicola Jones, Elfyn Williams, Rheinallt Jones, Eifion Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas a Viv Davies.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed Mawrth 2024.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
4. **FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nododd y Clerc fod achos gorfodaeth wedi ei agor i edrych i mewn i'r cae gerllaw'r lleoliad hwn, a oedd i'w weld yn cael ei hysbysebu fel 'Billy's Wild Camping'. Nodwyd.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole –** Darparwyd diweddariadau bod darluniau newydd wedi eu cyflwyno ar y cais, nid oedd yn glir eto a fyddai angen ymgynghoriad cyhoeddus pellach ar y mater. Nid oedd unrhyw ddiweddariadau hefyd ynghylch pryd y byddai'r cais yn dod tu blaen y Pwyllgor Cynllunio i'w benderfynu. Nodwyd.
7. **Biniau Sbwriel Cyhoeddus yn y Cymuned –** Cadarnhawyd nad oedd y Cyngor Sir wedi cynnal ymgynghoriadau gyda Chynghorau Cymuned wrth gynnal y broses. Cam cyntaf y broses oedd cael gwared ar yr holl finiau sbwriel o'r rhwydwaith ble oeddynt wedi rhoi mewn lleoliad nad oedd ganddynt lwybrau troed di-dor. Nid oedd gweddill y biniau sbwriel oedd i'w symud wedi'u nodi eto. Nododd y Cyngor ei bryder mewn perthynas â'r mater.
8. **Grid Cenedlaethol** – **Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad.
9. **Materion Llifogydd yng Nghilgadan** – Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariadau ar y gwaith arfaethedig yma.

10. **Materion Llifogydd yn y Cymuned -** Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariadau ar y gwaith arfaethedig yma yng Nghoedlleine / Ystrad Ferthyr a rhwng Cloigyn a Bancycapel.
11. **Archwiliad Cymru** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
12. **Ymyl Ffordd Ty Hir -** Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariadau ar y gwaith arfaethedig yma.
13. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
14. **Gŵyl Flodau Eglwys Llandyfaelog –** Nodwyd llwyddiant y digwyddiad a diolchwyd i bawb a helpodd i greu arddangosfa drawiadol y Cyngor Cymuned a'r arddangosfeydd eraill o amgylch yr Eglwys. Cymeradwywyd taliad o £106.15 am y blodau. Bydd llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at Mr a Mrs Atkinson o Gellideg a oedd wedi darparu gwyrddni a dail ychwanegol ar gyfer arddangosfa'r Cyngor.
15. **Rhoddion –** Derbyniwyd nodiadau diolch gan CISS a Marie Curie am gyfraniadau'r Cyngor. Nodwyd.

## 6. Gohebiaeth

1. **Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.
2. **Cylchgrawn Chwarae dros Gymru** – Nodwyd.
3. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd mewn argyfwng C2074 Pontantwn, o'i chyffordd gyda'r A484, am bellter o 1 cilomedr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar ddydd Iau 14eg Mawrth 2024. Nodwyd.
4. **Archwilio Cymru** – Hysbysiad Archwilio 2023-24. Nodwyd.
5. **Nododd y Cyng Meinir James ei diddordeb yn y mater hwn fel Llywodraethwr Ysgol Gyfun Bro Myrddin - Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad ar y bwriad i wahardd aros ar unrhyw adeg / gwahardd stopio yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Mynegwyd pryderon ynghylch y cynigion a fyddai'n cael eu hanfon ymlaen i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:
    - Ni theimlwyd y byddai'r cynllun yn lleddfu'r problemau a brofwyd ac y byddai mewn gwirionedd yn gwaethygu'r mater gan y byddai'r traffig yn symud ymhellach i ffwrdd o'r ysgol, gan barcio mewn mannau sydd hyd yn oed yn llai addas. Teimlwyd y gallai hyn gynyddu'r perygl i'r plant.
    - Byddai gwybodaeth yn cael ei gofyn amdano ar ble y rhagwelir byddai'r ceir oedd yn cael eu dadleoli yn parcio, os nad mewn ardaloedd sydd ond yn bellach i ffwrdd na'r lleoliadau presennol?
    - Byddai gwybodaeth yn cael ei gofyn amdano ynghylch pa gynigion oedd yn cael eu cyflwyno er mwyn ateb y mater teimlwyd y Cyngor oedd yn achosi'r problem, sef y diffyg trafnidiaeth i blant gyrraedd yr ysgol?
6. **Un Llais Cymru –** Tanysgrifiad 2024-25 gyda chost o £252.00. Cymeradwywyd adnewyddu tanysgrifiad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2024-25.
7. **Un Llais Cymru –** Digwyddiadau hyfforddi Mawrth, Ebrill, Mai a Mehefin. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru –** Ymgynghoriad: Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol). Nodwyd.
9. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad Cynghorau Cymuned a Thref. Nodwyd.
10. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am y grŵp ffocws ar gyfer cynrychiolwyr ieuenctid cynghorau cymuned a thref. Gwahoddiad gan Lywodraeth Cymru i

Gynrychiolwyr Ieuenctid Cynghorau Cymuned a Thref ymuno â'r Grŵp Gorchwyl Democrataidd i adolygu iechyd cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Nodwyd.

11. **Dolen Teifi** – Gwybodaeth am y Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad: cyfyngiadau cyflymder 20 a 30 mya. Gan gynnwys darnau byr o ffyrdd yng Nghyffordd Llwyn yr Eos yng Nghwmffrwd ac yn ardal Heol Bolahaul. Nodwyd.
13. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Cylchlythyr Calon Tân. Nodwyd.
14. **Un Llais Cymru** - Amserlen a Chanllawiau Gweithredu Ariannol Flynyddol i Gynghorwyr. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. **Diffibrilwyr**

**a)** Nododd y Clerc fod y padiau a batris ar gyfer uned y Llew Coch wedi eu newid gan y Gwasanaeth Ambiwlans.

**b)** Nodwyd yr angen i newid y padiau ar gyfer unedau Cwmffrwd ac Idole. Gallai'r Gwasanaeth Ambiwlans ddarparu padiau ar gyfer oedolion yn unig ar gyfer yr unedau hyn, ond oherwydd lleoliad Uned Idole teimlwyd y dylid darparu padiau y gellid eu defnyddio ar gyfer plant. Darparwyd y prisiau fel a ganlyn:

- Defib Warehouse £159.00 ynghyd â TAW
- Defib pad £186.49 ynghyd â TAW
- Defib 4 life £159.00 ynghyd â TAW
- Defib shop £188.00 ynghyd â TAW

Cytunwyd i symud ymlaen â phrynu o'r naill neu'r llall o'r unedau pris isaf y gellid eu darparu erbyn diwedd mis Ebrill.

**c)** Roedd opsiynau wedi cael ei chwilio ar gyfer casys yn lle'r rhai a oedd un gadael i ddŵr ddod i mewn yng Nghwmffrwd, Croesyceiliog a Glanmorlais.

Nododd y Clerc bod y rhan fwyaf o gyflenwyr yn mynnu bod angen darparu casys wedi'u gwresogi (gyda chyflenwad trydan). Nodwyd nad oedd hwn ar gael yn y lleoliadau ar hyn o bryd.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar y mater, cytunwyd i:

- Gofyn a oedd unedau pŵer solar ar gael;
- Ystyried symud yr unedau fel a ganlyn:
    - I mewn i Arosfan Bws Glanmorlais – gofynnir am gymeradwyaeth y Cyngor Sir;
    - I mewn i Gysgodfa Bws Croesyceiliog
    - I mewn i Gysgodfan Bws Cwmffrwd – Bydd opsiynau posibl ar gyfer cadw'r cas yn garej OC Davies yn cael eu trafod gyda'r Cwmni.
    - Mewn unrhyw achos o symud y cas, byddai arwyddion yn cael eu darparu fel oedd yn briodol.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym misoedd Mawrth gyda chyfanswm cost o £560.00 y mis, cymeradwywyd hyn.

**9. Digwyddiadau Cymunedol 2024**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2024 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi – Llysiau (Mehefin), Blodau (Awst)
- Cystadleuaeth Bwgan Brain – Thema Olympaidd.

Byddai'r Clerc yn cysylltu â Graham Green i'w wahodd i fod yn feirniad y gystadleuaeth. Roedd opsiynau ar gyfer ffotograffiaeth yn parhau i gael eu hystyried.

**10. Adroddiad Cyllid 2023-24**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 4ydd chwarter ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Cynhaliodd y Cyngor y monitro chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad. Cynhaliodd y Cadeirydd adolygiad o gofnodion ariannol y Cyngor.

Mynegwyd pryder bod gorwariant wedi awgrymi yng nghyllideb y Cyngor am y flwyddyn wedi'i achosi gan gynnydd uchel iawn mewn costau ynni goleuadau cyhoeddus ynghyd ag anfoneb uchel Archwilio Cymru. Nodwyd na allai'r Cyngor ragweld y naill na'r llall o'r taliadau hyn fel rhan o osod y gyllideb.

**11. Asesiad Risg 2024-25**

Ystyriodd y Cyngor Ddadansoddiad Risg drafft 2024-25 a gyflwynwyd gan y Clerc. Cytunwyd y ddogfen ddrafft.

**12. Adroddiad Cyflogau Staff a Chontractau 2024-25**

Cytunwyd Cyngor cau allan y cyhoedd â'r wasg o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem oherwydd natur y wybodaeth i drafod.

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a chytunwyd yr eitemau canlynol.

**a) Glanheuwyr Arosfeydd Bysiau**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd cadw taliad ar gyfer arosfan bysiau Croesyceiliog fel £100 y flwyddyn.

**b) Atgyweiriwr**

Nodwyd taw yr Atgyweiriwr oedd Michael Leefe gyda thaliad o £22.00 yr awr am y flwyddyn.

**c) Clerc y Cyngor**

Cytunwyd i gadw'r pwynt tâl presennol ar frig y raddfa berthnasol ym mhwynt 29, sef £8,669.19 ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Cyngor dalu lwfans o £26.00 y mis ar gyfer gweithio gartref. Roedd hyn yn cywmpasi lwfans gweithio cartref CTEM (£26.00 y mis ar hyn o bryd).

Cadarnhaodd y Cyngor y dylid talu'r lwfans teithio angenrheidiol a dalwyd ar gyfradd lwfans milltiroedd CTEM (45c y filltir ar hyn o bryd).

**13. Cyfrifon**

a) **Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Cyngor Sir Caerfyrddin £2,908.27** Costau goleuadau cyhoeddus 2023-24 - £2,423.56 gyda TAW £484.71

Nodwyd pryder am lefel uchel y cynnydd mewn taliadau ynni am y flwyddyn.

| **2.** | **Disgrifiad** | **Cyflog** | **Costau** | **Cyfanswm Gros** | **Treth wedi tynnu ffwrdd** | **YG wedi tynnu ffwrdd** | **Cyflog Net** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Mawrth a chostau** | **£722.43** | **£26.00<br>£7.00<br>£11.70<br>£15.10** | **£782.23** | **£298.60** | | **£483.63** |

3. **Cyllid a Thollau EM** **£895.80** Ionawr - Mawrth
4. **Michael Leefe** **£560.00** Taliad Mawrth (gweler eitem 8)
5. **Arfon Davies** **£106.15** Costau arddangosfa blodau (gweler eitem 5.14)
6. **Un Llais Cymru** **£252.00** Tanysgrifiad 2024-25 (gweler eitem 6.6)

**b)** Nododd y Clerc derbyniad ad-daliad TAW 2023-24 o £748.32 oddi wrth Gyllid a Thollau EM.

**14. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Bydd y Clerc yn adrodd am dipio anghyfreithlon yn Sgwar Bryncochbach a Bwlchygwynt i'r Cyngor Sir.
2. Nodwyd nad oedd yr arwydd adborth cyflymder yng Nghwmffrwd yn gweithio o hyd. Bydd y Clerc yn adrodd y mater.
3. Derbyniwyd cwyn fod y goleuadau troedffordd yn Frondeg yn llachar iawn. Bydd y Clerc yn codi'r mater gyda'r Cyngor Sir.
4. Nodwyd bod yr arwydd stopio yn Y Lan a'r arwydd 50mya yn Garthowen wedi eu difrodi. Bydd y Clerc yn adrodd y mater i'r Cyngor Sir.
5. Bydd y Clerc yn adrodd y twll mawr ar yr heol rhwng Ystradferthyr a Choedlleine i'r Cyngor Sir.
6. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau a'r Clerc am eu cefnogaeth iddi drwy gydol ei blwyddyn fel Cadeirydd y Cyngor. Atgoffwyd aelodau o'r cinio blynyddol i'w gynnal ar 19 Ebrill.

**Cynhelir cyfarfod nesaf a Cyfarfod Blynyddol y Cyngor dydd Iau 9fed Mai 2024.**